**Arolygiad o dan Adran 28**
**Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

# Ysgol Gynradd Cae Top

**Stryd Yr Allt**
**Bangor Uchaf**
**Gwynedd**
**LL57 2HA**

**Rhif yr Ysgol: 6613030**
**Dyddiad yr Arolygiad: 11/05/09**

**gan**

**Merfyn Lloyd Jones**
**78218**

**Dyddiad Cyhoeddi: 14/07/09**
**O dan rif contract Estyn: 1119408**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd1: Da gyda nodweddion rhagorol.**

81 Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn hynod o effeithiol. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i Fframwaith ABaCh. Mae sesiynau cydaddoli yn cwrdd â'r gofynion statudol. Mae'r ffordd sensitif a gofalgar mae'r ysgol yn ymateb i wahanol gredoau'r disgyblion yn rhagorol. Rhoddir cyfleon ardderchog i ddisgyblion gyfranogi mewn cynllunio, a chyflwyno. Manteisir ar ymweliadau gan ystod o ymwelwyr gan gynnwys teuluoedd sy'n gysylltiedig a'r ysgol er mwyn atgyfnerthu egwyddorion, megis pwysigrwydd helpu eraill llai ffodus. Mae'r holl ddisgyblion yn parchu naws y gwasanaethau. Mae sesiynau 'amser cylch' yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a dealltwriaeth y disgyblion o faterion moesol a chymdeithasol ac yn eu cynorthwyo i barchu gwirionedd a chyfiawnder.